# 22. Roedd yn y Wlad Honno

Mewn cân, meim a darlleniad

Carol: ‘Clywch, y ddwyfol sanctaidd gân’, *Clychau’r Nadolig*.

Llefarydd 1: Do, fe anwyd Ceidwad. Am gannoedd o flynyddoedd bu pobl Israel yn disgwyl am y dydd pan fyddai Duw yn anfon brenin i wneud eu cenedl yn genedl fawr, brenin mwy na Dafydd ac yn hanu o dylwyth Dafydd.

Darllenydd 1: Yna y daw allan wialen o gyff Jesse, a blaguryn a dyf o’i wraidd ef. Ac ysbryd yr Arglwydd a orffwys arno. Ysbryd doethineb a deall; ysbryd cyngor a chadernid: ysbryd gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd. (Eseia 11:1–12)

Llefarydd 2: Roedd y Brenin Dafydd yn filwr mawr ac roedd ei fyddin wedi concro llawer o bobl. Roedd pobl Israel yn disgwyl y byddai Duw’n anfon brenin iddynt, brenin a fyddai’n filwr dewr. Ond roedd gan y proffwyd Eseia rywbeth gwahanol i’w ddweud wrthynt.

[*Meim: Milwr arfog yn mynd oddi ar y llwyfan yn ystod y darlleniad nesaf*]

Darllenydd 2: Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef; a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd. (Eseia 9:6)

Carol: ‘Odlau tyner engyl’, *Clychau’r Nadolig*.

Llefarydd 3: Mae stori geni gwir Frenin Israel yn dechrau ym Methlehem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Darllenydd 3: Bu hefyd yn y dyddiau hynny fyned gorchymyn allan oddi wrth Awgwstws Cesar, i drethu yr holl fyd.

Y trethiad yma a wnaethpwyd gyntaf pan oedd Cyreniws yn rhaglaw ar Syria. A phawb a aethant i’w trethu, bob un i’w ddinas ei hun. A Joseff hefyd a aeth i fyny o Galilea, o ddinas Nasareth, i Jiwdea, i ddinas Dafydd, yr hon a elwir Bethlehem am ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd.

I’w drethu gyda Mair, yr hon a ddyweddiasid yn wraig iddo, yr hon oedd yn feichiog.

A bu, tra oeddynt hwy yno, cyflawnwyd y dyddiau i esgor ohoni. A hi a esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig, ac a’i rhwymodd ef mewn cadachau, ac a’i dododd ef yn y preseb am nad oedd iddynt le yn y llety.

(Luc 2:1–7)

[*Meim: Mair a Joseff yn cerdded i Fethlehem, yn curo ar ddrysau, ceidwaid y gwestai yn ymddangos gan ysgwyd eu pennau a’u gwrthod nes bod un ohonyn nhw o’r diwedd yn mynd â Mair a Joseff tu ôl i’r llenni*]

Carol: ‘Draw yn nhawelwch Bethlem dref’, *Clychau’r Nadolig.*

Darllenydd 4: Ac yr oedd yn y wlad honno fugeiliaid yn aros yn y maes, ac yn gwylied eu praidd liw nos. Ac wele angel yr Arglwydd a safodd gerllaw iddynt, a gogoniant yr Arglwydd a ddisgleiriodd o’u hamgylch: ac ofni yn ddirfawr a wnaethant. A’r angel a ddywedodd wrthynt, Nac ofnwch, canys wele, yr wyf i yn mynegi i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i’r holl bobl. Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd. A hyn fydd arwydd i chwi: Chwi a gewch y dyn bach wedi ei rwymo mewn cadachau, a’i ddodi yn y preseb. Ac yn ddisymwth yr oedd gyda’r angel liaws o lu nefol yn moliannu Duw ac yn dywedyd ‘Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear, tangnefedd, i ddynion ewyllys da’.

(Luc 2:8–14)

[*Meim: Y bugeiliaid yn dod i mewn ar ddechrau’r darlleniad gan feimio. Ni ddylid dramateiddio’r angel. Y bugeiliaid i edrych i fyny’n unig*]

Carol: ‘Ar hanner nos yn glir y daeth’, *Clychau’r Nadolig.*

[*Meim: Y bugeiliaid yn mynd oddi ar y llwyfan i gyfeiriad Bethlehem*]

Darllenydd 5: Ac wedi geni yr Iesu ym Methlehem Jiwdea yn nyddiau Herod Frenin, wele, doethion a ddaethant o’r dwyrain i Jerwsalem gan ddywedyd, ‘Pa le mae yr hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Canys gwelsom ei seren ef yn y dwyrain, a daethom i’w addoli ef.’

Ond pan glybu Herod Frenin, efe a gyffrowyd, a holl Jerwsalem gydag ef. Yna Herod, wedi galw y doethion yn ddirgel, a’u holodd hwynt yn fanwl am yr amser yr ymddangosasai y seren.

Ac wedi eu danfon hwy i Fethlehem, efe a ddywedodd, ‘Ewch, ac ymofynnwch yn fanwl am y mab bychan, a phan gaffoch ef, mynegwch i mi, fel y gallwyf innau ddyfod a’i addoli ef. Hwythau, wedi clywed y brenin, a aethant, ac wele, y seren a welsent yn y dwyrain a aeth o’u blaen hwy, hyd oni ddaeth hi a sefyll goruwch y lle yr oedd y mab bychan. A phan welsant y seren, llawenychasant â llawenydd mawr dros ben.

(Mathew 2:1–3, 7–10)

[*Meim: Stori’r doethion a Herod*]

Herod: Ddoethion, pa beth a glywaf
Am eni Brenin nef?
Rhowch wybod y manylion
Ac af i’w foli ef.

[*Paratoi’r preseb. Mair a Joseff yn cymryd eu lle*]

Canu: ‘Tawel y nos, sanctaidd y nos’, *Clychau’r Nadolig.*

[*Mair a Joseff yn unig o gwmpas y preseb*]

[*Meim: Y bugeiliaid yn dod i mewn ac yn sefyll tu ôl i'r preseb*]

[*Y doethion yn dod ac yn sefyll o gwmpas y preseb*]

Llefaru: 'Tri ŷm ni o'r Dwyrain draw', *Clychau'r Nadolig*

[*Y doethion yn cyflwyno eu hanrhegion*]

Pawb: 'Tri ŷm ni o'r Dwyrain draw', *Clychau'r Nadolig*.

Gweddi

**DIWEDD**

# Deunydd Ychwanegol ar Gyfer y Nadolig